| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Aelod Arweiniol** |
| **Dyddiad yr Adroddiad** | **19 Hydref 2020** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Y Cynghorydd Tony Thomas / Liz Grieve, Pennaeth Cymunedau a Chwsmeriaid** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Geoff Davies, Swyddog Arweiniol - Tai Cymunedol** |
| **Teitl** | **Polisi Dyraniadau Tai a Covid 19** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ceisio cymeradwyaeth i barhau gyda'r newid rhannol a dros dro i'r polisi dyraniadau ar gyfer tai cymdeithasol yn Sir Ddinbych mewn ymateb i effaith Covid-19 ar lety dros dro / brys ar gyfer aelwydydd digartref.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae'r cyngor wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd sydd angen llety brys o ganlyniad i'r cyfnod clo a'r gofynion cadw pellter cymdeithasol yn sgil Covid-19.

Mae nifer yr aelwydydd mewn llety brys wedi cynyddu o 48 i 154 ers 23 Mawrth. 136 oedd y ffigwr hwn ym mis Gorffennaf pan gytunwyd i'r diwygiad gwreiddiol.

Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cadarnhau y bydd dyletswydd lawn am ail-gartrefu parhaol yn ddyledus i unrhyw aelwydydd sydd wedi cael eu lleoli mewn llety brys yn ystod y cyfnod clo.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae amgylchiadau eithriadol y cyfnod clo a'r effeithiau dilynol yn ymofyn ymateb eithriadol. Yn sgil yr amseroedd aros hir am dai cymdeithasol, argymhellir y dylid diwygio'r Polisi Dyraniadau presennol, fel y cymeradwywyd gan y Cyngor Llawn yn 2014, am gyfnod o 3 mis arall o 19 Hydref 2020.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Ar 3 Mehefin 2020, cyhoeddodd LlC ddogfen "Cam 2 - Canllawiau Cynllunio ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd a Chefnogaeth Tai" i gefnogi'r broses adfer yn dilyn cyfnod clo'r pandemig.

Mae Rhan D yn cyfeirio at "Gynyddu argaeledd tai cymdeithasol ar gyfer pobl sy'n wynebu neu mewn perygl o wynebu digartrefedd". Mae'n nodi y dylid "alinio'r dyraniad llety presennol â chynlluniau pontio'r awdurdod lleol. Mae'n hanfodol fod landlordiaid cymdeithasol, gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol yn chwarae eu rhan i gynyddu nifer y tai sydd ar gael i bobl sydd wedi derbyn llety yn ystod cam 1 ... mae hyn yn cynnwys adolygu Polisïau Dyraniadau".

Bydd y diwygiad yn caniatáu i ni osod eiddo'n uniongyrchol, sy'n golygu y bydd modd paru aelwyd mewn llety brys gyda chartref addas o fewn y sector rhentu cymdeithasol.

Yn ymarferol, mae'n annhebygol y bydd modd paru pob aelwyd mewn llety brys â phob cartref sydd ar gael o fewn stoc tai cymdeithasol y sir. Felly, bydd y dull hwn hefyd yn ein galluogi i osod eiddo i grwpiau eraill h.y. blaenoriaeth Band 1 (Angen Brys), grwpiau blaenoriaeth eraill ar y gofrestr tai cyffredin ac aelwydydd ar y Grŵp Tai Arbenigol.

Ni fyddai hyn yn cael effaith ar Bolisïau Gosodiadau Lleol (PGLl) sydd eisoes ar waith (gan eithrio pan fo modd cefnogi'r broses o ail-gartrefu aelwydydd mewn argyfwng a chydymffurfio â'r PGLl) gan fod y rhain yn ymwneud â gosodiadau mewn ardaloedd gwledig (sy'n brin iawn) a gosodiadau i gartrefi newydd sydd â pholisïau y cytunwyd arnynt cyn i'r adeiladau gael eu datblygu.

Yn dilyn y penderfyniad dirprwyedig ym mis Gorffennaf rydym wedi gallu sicrhau cartref parhaol i'r 48 aelwyd a nodir yn ôl landlord cymdeithasol. Mae'r ffigyrau yn gyfran deg yn seiliedig ar nifer y stoc yn y sir.

- Tai Sir Ddinbych - 27
- Tai Clwyd Alyn - 11
- Tai Wales & West - 2
- Grŵp Cynefin - 6
- Cartrefi Conwy - 2

Tra bod y ffigyrau wedi cynyddu ers mis Gorffennaf ac wedi bod cyn uched â 180, bu cynnydd o ran y gosodiadau uchod ac yn ogystal â’r stoc tai cymdeithasol, mae’r Tîm Atal Digartrefedd hefyd yn ceisio cartrefi mewn sectorau eraill ac wedi canfod 31 o gartrefi yn y sector rhentu preifat ac o fewn cynlluniau tai â chymorth.

Bydd pob aelwyd sy’n derbyn cartref yn cael cymorth i sicrhau eu bod yn ymgartrefu yn eu cartref newydd ac yn cynnal eu tenantiaeth ac yn rhan o’r gymuned.

Mewn rhai achosion, mae’n bosibl y bydd aelwydydd sydd eisoes mewn llety dros dro arall mewn sefyllfa well i roi cynnig ar denantiaeth barhaol, a byddai ail-gartrefu’r aelwydydd hyn yn creu eiddo gwag o fewn llety dros dro neu lety â chymorth a fyddai o bosibl yn fwy addas ar gyfer aelwyd sydd wedi cael eu hail-gartrefu yn ystod cam 1 mewn llety brys.

Ymgynghorwyd â’r 6 Landlord Cymdeithasol Cofrestredig - Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin, Tai Wales & West, Cartrefi Conwy, Adra a Chymdeithas Dai Gogledd Cymru ac maent yn parhau i gefnogi’r cynnig hwn.

Yn Nhachwedd 2020 bydd y Grŵp Tai a Digartrefedd Strategol yn cynnal adolygiad llawn a manwl o gynnydd o ran darparu cartrefi i aelwydydd digartref ynghyd â dadansoddiad o’r galw cynyddol am dai cymdeithasol.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cefnogi aelwydydd digartref yn elfen allweddol o’r Strategaeth Dai ac yn un o Flaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol (Blaenoriaeth Tai – Mae pawb yn cael cefnogaeth i fyw mewn cartrefi sy’n diwallu eu hanghenion).

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae’r costau gosod yr un fath â’r costau busnes fel arfer ar gyfer landlordiaid cymdeithasol. Bydd unrhyw gostau ychwanegol a ysgwyddir yn ystod y cyfnod hwn mewn perthynas â COVID 19 yn, cyn belled ag y bo modd, cael eu hawlio drwy gronfa £10 miliwn ychwanegol Llywodraeth Cymru i gefnogi digartrefedd. Mae’n bosibl y bydd yr angen hirdymor am lety brys yn arwain at gostau ychwanegol i’r awdurdod.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Ni chwblhawyd Asesiad o Effaith ar Les gan ein bod ni wedi cymryd camau dros dro ychwanegol i gefnogi ein haelwydydd digartref diamddiffyn yn ystod y pandemig Covid-19. Dim ond am gyfnod dros dro y bydd y diwygiad yn weithredol, felly bydd unrhyw effaith ar grwpiau penodol hefyd yn rhywbeth dros dro yn y tymor byr, a bwriad cyffredinol y diwygiad yw cefnogi aelwydydd sydd ymysg y bobl fwyaf ddiamddiffyn yn y gymuned.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae'r gwaith i gefnogi aelwydydd digartref yn ffurfio rhan o'r Thema Adfer Tai Covid-19 a drafodwyd ac a gefnogwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Briffio'r Cabinet a gan Arweinwyr Grŵp.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes costau uniongyrchol ynghlwm â'r argymhelliad hwn, fodd bynnag, gallai methiant i ymdrin ag aelwydydd mewn llety brys yn effeithiol arwain at gostau ychwanegol i'r awdurdod.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae heriau ynghlwm â dyrannu tai arbennig yn sgil nifer yr aelwydydd sydd mewn angen a'r gofyniad am Bolisi Dyraniadau cyhoeddedig. Bydd diwygiad dros dro ffurfiol, nad yw'n bolisi cyffredinol ac sy'n caniatáu llwybrau eraill i dai cymdeithasol fel y disgrifir uchod, yn lleihau unrhyw risgiau ac yn galluogi'r cyngor a phartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gefnogi'r dull cam 2 gan LIC.

Er ein bod yn rhannu Polisi Dyraniadau ar y cyd rhanbarthol drwy'r bartneriaeth Un Llwybr Mynediad at Dai gyda Sir y Fflint a Chonwy, byddai'r penderfyniad hwn ond yn berthnasol i Sir Ddinbych a'r Cyngor sy'n wynebu'r risg.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Yn unol â'r pwerau a ddirprwyir i'r Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, yn Adran 13 Atodiad 2(B) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Mae Polisi Dyrannu Tai yn fater i Awdurdodau Lleol, fodd bynnag, dylai pob polisi gadw at ddeddfwriaeth - Deddf Tai 1996 / Deddf Tai (Cymru) 2014 a Chod Canllawiau

ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd 2016. Mae’r argymhelliad yn ceisio atal y polisi dros dro, a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn yn 2014 gan yr Aelod Arweiniol Tai.